COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DYDD MAWRTH, 25 GORFFENNAF 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd C Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | N Clarke | P W Jenkins | MJ Kearn |
| W J Kendall | J E Pratt | G Walter | I Williams |
| MJ Williams | | | |

Gwahoddwyr:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a’r Amgylchedd |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet dros Addysg |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles |
| Cynghorydd Rhys Goode | Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Pennaeth Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

42. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Paul Davies a Melanie Evans.

Dywedodd y Cynghorydd Norah Clarke y byddai angen iddi adael y cyfarfod yn gynnar.

43. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaeth y Cynghorydd Ian Williams ddatgan buddiant personol fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a llywodraethwr Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Gyfun Brynteg.

44. DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA A HERIAU'R GYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a'i ddiben oedd diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol gyda'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau o ran cyllideb ac adnoddau a pherfformiad yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Prif Weithredwr a thrafododd yr Aelodau’r canlynol gyda’r gwahoddedigion:

- Lefel swyddi gwag yr Awdurdod o gymharu â chyfraddau awdurdodau eraill, y ffyrdd arloesol o symud rhai swyddi gwag ymlaen yn cael eu harchwilio, a'r ailstrwythuro

sy'n cael ei wneud yn yr adran gynllunio.

- Lefel y cyllid ar gyfer Carbon Sero Net 2030 a chost gwaith y gyfarwyddiaeth tuag ato, gan ystyried y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU o ran arafu'r gwaith hwn.

- O ran cwestiwn a oedd unrhyw feincnodi wedi'i gwblhau o ran y gyllideb y pen o'r boblogaeth yn yr Awdurdod o'i chymharu ag awdurdodau eraill o faint tebyg yn Ne Cymru, nododd y swyddogion y byddai darn o waith drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn darparu gwybodaeth feincnodi ar draws awdurdodau dethol yng Nghymru ledled rhai gwasanaethau.

- A allai'r Awdurdod ymchwilio i ffyrdd o fuddsoddi arian i gynhyrchu refeniw y gellid ei fuddsoddi yn ôl yn y gwasanaethau a ddarperir.

- Disgwyliad uchel y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir i gymunedau gan y gyfarwyddiaeth, gan gynnwys cyfrifoldebau statudol, edrych i'r dyfodol, archwilio gwahanol ffyrdd o weithredu, a'r hyn y gellid ei gyflawni yn unol â'r adnoddau a'r gyllideb o fewn y gyfarwyddiaeth mewn model gweithredu seiliedig ar dargedau newydd.

- Edrych ar berthynas newydd a gwahanol gyda chynghorau tref a chymuned, a oedd yn cael ei nodi yn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ac y gellid ei rannu gyda'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd i'r gwahoddedigion am fod yn bresennol, a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelodau'r Cabinet a swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn:

1. Dylid sicrhau bod yr adroddiad Diweddariad ar Sefyllfa a Heriau'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar gael i holl Aelodau'r Pwyllgor.

2. Croesawodd y Pwyllgor y cynnig o gynllun dros y pum mlynedd nesaf i ddatblygu model gweithredu seiliedig ar dargedau (TOM) newydd, fel yr eglurwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, ar sail yr hyn y gall y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ei gyflawni yn unol â'i hadnoddau a'i chyllideb. Edrych ar yr holl wasanaethau a ddarperir ganddynt, cyfrifoldebau statudol, a disgwyliadau'r cymunedau. Argymhellodd y Pwyllgor, ar yr adeg briodol pan fydd drafft y model gweithredu seiliedig ar dargedau ar gael, ei fod yn cael ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith i'w adolygu gan y Pwyllgor.

3. Bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn ystyried y model presennol o weithio mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r cynghorau tref a chymuned lleol ac archwilio opsiynau ar gyfer gwell cyfathrebu, mwy o gydweithio, ac a all yr Awdurdod gynorthwyo cynghorau tref a chymuned i arwain rhai darpariaethau gwasanaeth. Gofynnodd yr Aelodau i ganlyniad y drafodaeth hon gael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor fel adroddiad gwybodaeth.

45. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith amlinellol ddrafft a mynegodd yr Aelodau bryder o ran a fydd gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau ddigon o adnoddau, gan roi

sylwadau ar lefel arbedion cyllidebol y gyfarwyddiaeth a wnaed dros y 10 i 12 mlynedd diwethaf, lefel y swyddi gwag heb eu llenwi, ymatebion heb eu gwneud i argymhellion y Pwyllgor Craffu, ceisiadau am wybodaeth, ac oedi cyn bod adroddiadau ar gael. Pwysleisiodd y Pwyllgor nad oedd hyn yn feirniadaeth ar y cyfarwyddwr nac unrhyw staff.

Yn dilyn trafodaethau manwl, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn:

1. Trafododd y Pwyllgor y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn gweithredu gyda dyraniad cyllideb o £31 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2023/2024, sy'n cynrychioli 9% o gyllideb yr awdurdod. Ystyriwyd a oedd unrhyw feincnodi wedi'i wneud o ran cyllideb y pen o'r boblogaeth yn yr awdurdod ar gyfer cymunedau o'i chymharu â rhai awdurdodau eraill yn Ne Cymru o faint tebyg. Dywedodd y Prif Weithredwr fod darn o waith wedi'i gomisiynu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac mae'n bwriadu ei rannu yng nghyfarfod nesaf Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP).

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Blaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr uchod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, ac yn nodi y byddai'r Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

## 46. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:15.